



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Statws ffioedd cartref i'r rhai o Dirioogaethau Dibynnol ar y Goron

Statws ffioedd cartref a chapiau ar ffioedd dysgu i'r rhai sy'n symud o
Dirioogaethau Dibynnol ar y Goron i ddilyn cwrs yng Nghymru

Dyddiad cyhoeddi: 2 Awst 2021
Cam gofynnol: Ymatebion erbyn 25 Hydref 2021

This document is also available in English
Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

Trosolwg	Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am sylwadau ar ddiwygio rheoliadau penodol fel y bydd myfyrwyr sy'n symud o Diriogaethau Dibynnol ar y Goron i ymgymryd â chyrsgiau penodol yng Nghymru yn gymwys i gael statws ffioedd cartref ac, mewn perthynas â chyrsgiau addysg uwch, i fanteisio ar gapiau ar ffioedd dysgu.
Sut i ymateb	Defnyddiwch yr holiadur yng nghefn y ddogfen hon ac e-bostiwch eich ymateb i: HEDConsultationsMailbox@llyw.cymru
Gwybodaeth bellach a dogfennau perthnasol	Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.
Manylion cyswllt	I gael rhagor o wybodaeth: Rhian Haggett Yr Is-adran Addysg Uwch HEDConsultationsMailbox@llyw.cymru
Hefyd ar gael yn Saesneg yn:	https://gov.wales/home-fee-status-students-crown-dependencies

Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Bydd Gweinidogion Cymru yn dibynnu ar y pwerau statudol sydd ganddynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ar y ffordd y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Os bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Dim ond o dan gontract yr ymgwymerir â gwaith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, nodwch hynny wrth i chi anfon eich ymateb inni. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i gael gwybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan amgylchiadau penodol) i wrthwynebu eu prosesu neu gyfyngu ar eu prosesu
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- i gludadwyedd data (o dan amgylchiadau penodol)
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth a gedwir gan Lywodraeth Cymru a sut y'i defnyddir, neu os dymunwch arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:
Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

e-bost:

Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Cefndir

Gellir codi ffioedd gan rai sefydliadau, gan gynnwys ffioedd dysgu, ar y rhai sy'n dod i Gymru i astudio o'r Tiriogaethau Dibynnol ar y Goron, Beiliaeth Guernsey neu Feiliaeth Jersey, sef Ynysoedd y Sianel, neu Ynys Manaw ('yr Ynysoedd' gyda'i gilydd). Cânt eu trin fel 'myfyrwyr rhyngwladol' a gellir codi ffioedd uwch arnynt nag ar y rhai sy'n cael eu trin fel rhai sydd â 'statws ffioedd cartref'. Mae hyn yn berthnasol i'r ffioedd a godir gan ddarparwyr addysg uwch, darparwyr addysg bellach, a darparwyr penodol eraill.

At hynny, mae Gweinidogion Cymru wedi deddfu i sicrhau mai dim ond gan sefydliad nad yw'n codi mwy na'r swm y mae'r sefydliad wedi'i bennu ar gyfer y cwrs hwnnw, y gellir codi ffi dysgu ar 'bersonau cymhwysol' sy'n astudio cyrsiau addysg uwch penodol – 'cyrsiau cymhwysol'. Ni chaiff uchafswm y ffi dysgu y caiff sefydliad ei bennu fod yn fwy na'r swm a sefydlwyd gan Weinidogion Cymru beth bynnag. Enw'r swm hwn yw'r 'cap ffioedd dysgu' ac ar hyn o bryd mae'n £9,000 ar gyfer cyrsiau gradd amser llawn. Nid yw'r ffioedd uchaf hyn yn berthnasol i'r rhai sy'n dod i astudio i Gymru o'r Ynysoedd.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar ddiwygio rheoliadau fel y bydd y myfyrwyr hyn yn gymwys i gael statws ffioedd cartref, ac y bydd y cap ffioedd dysgu'n berthnasol iddynt.

Statws ffioedd cartref

Mae Adran 1 o Ddeddf Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) 1983 ('Deddf 1983') yn gymwys i brifysgolion, sefydliadau eraill yn y sector addysg uwch a sefydliadau yn y sector addysg bellach (ymhlith eraill). O dan adran 1 o Ddeddf 1983, gall yr Ysgrifennydd Gwladol (mewn perthynas â Lloegr) a Gweinidogion Cymru (mewn perthynas â Chymru) wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol neu'n awdurdodi codi ffioedd gan sefydliadau sy'n uwch yn achos myfyrwyr nad oes ganddynt y cysylltiad â'r DU a bennir yn y rheoliadau nag yn achos myfyrwyr sydd â chysylltiad o'r fath. Heb y ddarpariaeth hon, gall sefydliad sy'n codi ffioedd uwch ar rai myfyrwyr na'r rhai a godir ar fyfyrwyr eraill fod yn torri Deddf Cydraddoldeb 2010. Gall ffioedd gynnwys ffioedd dysgu a godir ar fyfyrwyr addysg uwch (israddedig ac ôl-raddedig), myfyrwyr addysg bellach, a myfyrwyr darparwyr penodol eraill.

Gan ddefnyddio'r pwerau sydd ar gael iddynt yn Neddf 1983, gwnaeth Gweinidogion Cymru Reoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007 (OS 2007/2310) ('Rheoliadau 2007') ar 4 Awst 2007 a daethant i rym ar 31 Awst 2007. Mae Rheoliadau 2007 wedi'u diwygio sawl gwaith. Mae rheoliad 4 o Reoliadau 2007 yn darparu y bydd yn gyfreithlon i sefydliadau penodol godi ffioedd uwch yn achos person nad yw'n dod o fewn yr Atodlen i Reoliadau 2007 nag yn achos person sy'n dod o fewn yr Atodlen honno. Y sefydliadau yw'r rhai:

- o fewn y sector addysg uwch, gan gynnwys coleg, ysgol neu neuadd sy'n rhan o sefydliad o'r fath;
- o fewn y sector addysg bellach;
- sy'n ddarparwyr hyfforddiant ac sy'n cael cymorth ariannol o dan adran 86 o Ddeddf Addysg 2005;
- sy'n darparu addysg bellach ac a gynhelir gan awdurdod lleol.

Mae rheoliadau 5 (Dyfarniadau gan awdurdodau lleol), 6 (Taliadau gan CCAUC i ddarparwyr hyfforddiant), 7 (Taliadau gan CCAUC) ac 8 (Taliadau gan Weinidogion Cymru) o Reoliadau 2007 yn gwneud darpariaeth debyg mewn perthynas â'i gwneud yn gyfreithlon cyfyngu ar dalu dyfarniadau penodol i'r rhai sy'n dod o fewn yr Atodlen i'r Rheoliadau hynny. Dylid nodi y gall fod meini prawf cymhwysedd ychwanegol ar gyfer y dyfarniadau hynny ac nid yw'n dilyn y bydd person yn gymwys i gael dyfarniad am ei fod yn dod o fewn yr Atodlen.

Y categori cymhwysedd sylfaenol yn yr Atodlen i Reoliadau 2007 yw categori'r personau hynny sydd wedi setlo yn y DU, ac sydd felly â chysylltiad cryf â'r DU. Rhaid i grwpiau eraill sy'n gymwys hefyd fod â chysylltiad diriaethol â'r DU. Yn ogystal, mae angen cyfnod o breswyliaeth gyffredin yn y DU a'r Ynysoedd er mwyn bod yn gymwys mewn nifer o achosion. Mae pobl sydd â chysylltiad cryf â'r DU mewn gwell sefyllfa i fynd ymlaen i wneud cyfraniad i gymdeithas a'r economi, a dyna resymeg y polisi dros eu trin yn fwy ffafriol.

Caiff y gofyniad hwn am breswyliaeth gyffredin ei hepgor mewn nifer fach o achosion lle mae ystyriaethau polisi penodol yn codi (er enghraifft, yn achos ffoaduriaid, i alluogi'r DU i gyflawni ei rhwymedigaethau o dan Gonfensiwn Ffoaduriaid 1951).

Dywedir bod gan y rhai a restrir yn yr Atodlen 'statws ffioedd cartref' gan eu bod fel arfer yn preswyllo yn y DU. Mae hyn yn gwahaniaethu rhyngddynt a'r rhai nad ydynt yn breswylwyr, a elwir fel arfer yn 'fyfyrwyr rhyngwladol'.

Mae'r Atodlen yn cynnwys sawl categori o bersonau cymhwysol. Mae llawer o'r rhain yn cynnwys gofyniad fod y person yn preswyllo fel arfer yn y DU ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs. Ar hyn o bryd, mae rheoliad 2(8) o Reoliadau 2007 yn darparu bod person sy'n preswyllo fel arfer yn y DU o ganlyniad i symud o'r Ynysoedd at ddibenion ymgymryd â chwrs, i'w ystyried fel pe bai'n preswyllo'n arferol yn yr Ynysoedd. Felly, efallai na fydd person sy'n symud i'r DU o'r Ynysoedd i astudio yn dod o fewn unrhyw un o'r categorïau yn yr Atodlen ac efallai na fydd yn gymwys i gael statws ffioedd cartref.

Y cap ar ffioedd dysgu

Mae Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 ('Deddf 2015') yn darparu bod sefydliadau penodol yng Nghymru yn cael gwneud cais i gymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad.

Os bydd yn llwyddiannus, bydd cyrsiau addysg uwch y sefydliad wedi'u dynodi at ddibenion Gweinidogion Cymru sy'n rhoi cymorth ariannol i fyfyrwr sy'n ymgymryd ag un o'r cyrsiau hynny. Mae adran 5 o Ddeddf 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gynllun ffioedd a mynediad bennu (neu ddarparu ar gyfer penderfynu) terfynau ffioedd mewn perthynas â 'chysiau cymhwysol' penodol bob blwyddyn academaidd. Terfynau ffioedd yw'r swm mwyaf y bydd rhaid i 'berson cymhwysol' ei dalu i sefydliad am ymgymryd â chwrs cymhwysol, ac fe'i pennir gan y sefydliad.

Mae adran 5(2)(b) o Ddeddf 2015 yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi disgrifiad o gyrsiau cymhwysol, ac mae adran 5(5)(b) yn eu galluogi i ragnodi dosbarthiadau o bersonau yn bersonau cymhwysol. Rhagnodir y rhain gan Reoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015 (OS 2015/1484) (y 'Rheoliadau CPC'). Mae'r Rheoliadau CPC wedi'u diwygio sawl gwaith.

Ni ddylai'r ffi a godir am gwrs fod yn uwch na'r swm a bennir yn Rheoliadau Addysg Uwch (Symiau) (Cymru) 2015 (OS 2015/1496) ar gyfer y categori hwnnw o gyrsiau. Er enghraifft, y terfyn ar gyfer cyrsiau gradd amser llawn a ddarperir gan sefydliadau yng Nghymru yw £9,000. Mae terfynau gwahanol yn berthnasol i wahanol categorïau o gyrsiau. Gelwir y terfynau ffioedd hyn yn 'gap ffioedd dysgu'.

Mae'r Atodlen i'r Rheoliadau CPC yn cynnwys sawl categori o bersonau cymhwysol. Mae llawer o'r rhain yn cynnwys gofyniad fod y person yn preswyl fel arfer yn y DU ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs. Mae paragraff 1(6) o'r Atodlen honno yn darparu bod person sy'n preswyl fel arfer yng Nghymru, Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon neu'r Ynysoedd sydd wedi symud o un o'r ardaloedd hynny at ddibenion ymgymryd â'r cwrs presennol neu gwrs y mae'r person wedi ymgymryd ag ef yn union cyn ymgymryd â'r cwrs presennol, gan ddiystyru unrhyw wyliau yn y cyfamser, i'w ystyried fel pe bai'n preswyl fel arfer yn y man y symudodd y person oddi yno. Felly, efallai na fydd person sy'n symud i'r DU o'r Ynysoedd i astudio yn dod o fewn unrhyw un o'r categorïau yn yr Atodlen ac efallai na fydd yn dod o fewn y telerau ynghylch y ffi uchaf a bennir gan sefydliadau yn eu cynlluniau ffioedd a mynediad.

Safbwynt polisi

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod achos cryf i'w wneud dros ddiwygio Rheoliadau 2007 a'r Rheoliadau CPC fel bod person sy'n symud o'r Ynysoedd i ymgymryd â chwrs yn cael ei drin fel pe bai'n preswyl fel arfer yn y DU yn hytrach nag yn yr Ynysoedd. Mae gan yr Ynysoedd gysylltiad agos a gwydn â'r DU. Er bod yr Ynysoedd yn hunanlywodraethol ac nad ydynt yn rhan o'r DU, mae'r DU yn gyfrifol am faterion amddiffyn a chysylltiadau tramor, ac mae nifer o gysylltiadau hanesyddol a chyfansoddiadol. Mae llawer o'r trigolion yn wladolion y DU.

Gall myfyrwyr o'r Ynysoedd hawlio cysylltiad â'r DU sy'n debyg o ran cryfder i'r hyn sy'n rhoi cymhwysedd i grwpiau eraill i statws ffioedd cartref a'r cap ffioedd dysgu. Er

enghraifft, mae gwladolyn o'r DU sy'n ymgymryd â chwrs yn y DU ac sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn nhiriogaethau tramor Prydain am o leiaf ran o'r cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs yn gymwys ar gyfer y ddau. Nid yw hynny'n wir yn achos gwladolyn o'r Ynysoedd sy'n preswyllo fel arfer yn y DU o ganlyniad i symud o'r Ynysoedd i ymgymryd â chwrs.

Mae Llywodraeth y DU wedi gwneud y rhai o'r Ynysoedd yn gymwys i gael statws ffioedd cartref a chapiau ffioedd dysgu wrth ddilyn cwrs yn Lloegr o 1 Awst 2021.

Cynnig

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig, yn dibynnu ar farn rhanddeiliaid, diwygio Rheoliadau 2007 a'r Rheoliadau CPC er mwyn dileu'r darpariaethau sydd ar hyn o bryd yn atal person sy'n preswyllo fel arfer yn y DU o ganlyniad i symud o'r Ynysoedd i ddilyn cwrs rhag cael ei drin fel pe bai'n preswyllo fel arfer yn y DU. Bydd dileu'r darpariaethau hyn yn galluogi'r personau hynny i elwa ar statws ffioedd cartref ac, yn achos cyrsiau addysg uwch, ar gapiau ffioedd dysgu, ar yr amod eu bod hefyd yn bodloni'r holl feini prawf cymhwysedd perthnasol eraill.

Mae statws ffioedd cartref yn ymestyn i unrhyw ffioedd a godir gan sefydliad.

Rhoi'r newid ar waith

Cynigir y byddai'r diwygiadau i'r rheoliadau yn dod i rym erbyn dechrau blwyddyn academiaidd 2022/23 ar 1 Awst 2022. Ni fyddai myfyrwyr sy'n dod o'r Ynysoedd i ddechrau cwrs ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw, ac sy'n preswyllo fel arfer yn y DU, yn cael eu trin fel rhai sy'n preswyllo fel arfer yn yr Ynysoedd. Mewn perthynas â'r categorïau cymhwysedd sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson fod yn preswyllo fel arfer yn y DU ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs, byddai myfyriwr o'r fath (yn amodol ar fodloni pob maen prawf cymhwysedd arall) yn gymwys i gael statws ffioedd cartref a'r cap ar ffioedd dysgu. Byddai myfyrwyr o'r fath ar gyrsiau a ddechreuodd cyn 1 Awst 2022 (yn amodol ar fodloni pob maen prawf cymhwysedd arall) yn gymwys i gael statws ffioedd cartref a'r cap ar ffioedd dysgu am flwyddyn academiaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2022.

Costau a manteision

O gadw at y sefyllfa bresennol, ceir codi ffioedd uwch am astudio yng Nghymru ar fyfyrwyr sydd wedi symud o'r Ynysoedd at ddibenion ymgymryd â chwrs, nag a fyddai'n cael eu codi pe bai'r rheoliadau'n cael eu diwygio. Roedd 160 o fyfyrwyr o'r Ynysoedd yn astudio mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru ym mlwyddyn academiaidd 2019/20¹.

¹ Ffynhonnell: Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch drwy Lywodraeth Cymru.

Byddai myfyrwyr o'r Ynysoedd yn elwa ar y cynnig hwn drwy dalu ffioedd dysgu is. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd hyn yn cynyddu nifer y myfyrwyr o'r Ynysoedd sy'n dewis Cymru fel man i astudio. Mae myfyrwyr sy'n preswyl fel arfer yn y DU o ganlyniad i symud o'r Ynysoedd at ddibenion ymgymryd â chwrs yn gymwys (o flwyddyn academaidd 2021/22) am statws ffioedd cartref a chapiau ffioedd dysgu wrth astudio yn Lloegr. Bydd diwygio'r rheoliadau yn sicrhau bod sefyllfa gystadleuol sefydliadau Cymru yn cyfateb i sefyllfa eu cymheiriaid yn Lloegr.

Ar y llaw arall, mae'n bosibl y bydd sefydliadau yn colli rhywfaint o refeniw ffioedd o ganlyniad i'r cynnig hwn, wrth i ffioedd gael eu gostwng, sy'n golygu cost iddynt. Mae'n bosibl y bydd hyn yn cael ei wrthbwysu gan gynnydd yn nifer y myfyrwyr o'r Ynysoedd. Hefyd, bydd costau addasu o fewn cyfnod penodol i sefydliadau wrth wneud newidiadau i'r system, sicrhau bod aseswyr ffioedd yn ymwybodol o'r newidiadau, a datblygu neu ddiwygio deunyddiau marchnata a gwybodaeth i fyfyrwyr sy'n gysylltiedig â ffioedd. Prin yw'r costau uniongyrchol i Lywodraeth Cymru (y rhai sy'n gysylltiedig â diwygio rheoliadau).

Yn gyffredinol, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd manteision y newid hwn yn drech na'r costau.